

Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn Answers to Questions not Reached in Plenary

8 Mehefin 1999

8 June 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies the Member has declared an interest.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Comprehensive Spending Review

Q6 Michael German: When will the Cabinet conclude its discussions on the comprehensive spending review for next year so that the decision on European match funding will be known? (OAQ74VB)

The First Secretary: Decisions arising out of the Government's next review of public spending will be announced during the course of next year. The review will set public expenditure plans for Departments and devolved Administrations for 2001-02, 2002-03 and 2003-04.

Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

C6 Michael German: Pryd y bydd y Cabinet yn gorffen trafod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ar gyfer y flwyddyn nesaf fel y bydd y penderfyniad ar arian Ewropeaidd cyfatebol yn wybyddus? (OAQ74VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Cyhoeddir penderfyniadau'n deillio o adolygiad nesaf y Llywodraeth o wariant cyhoeddus yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd yr adolygiad yn gosod cynlluniau gwariant cyhoeddus i'r Adranau ac i'r Gweinyddiaethau sydd wedi eu datganoli ar gyfer 2001-02, 2002-03 a 2003-04.

Y Bathdy Brenhinol

C7 Owen John Thomas: Pryd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu ymweld â'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant? (OAQ77VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Y tro diwethaf imi gwrdd â'r gweithlu yn y Bathdy Brenhinol oedd 2 Mawrth 1999, yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes dyddiad penodol gennyf mewn golwg ar gyfer ymweld â'r Bathdy, ond yr wyf yn cofio bod fy rhagflaenydd fel Aelod Seneddol De Caerdydd a Phenarth yn Ganghellor y Trysorlys pan ddaeth y Bathdy i dde Cymru. Yr wyf am weld y Bathdy yn datblygu ac yn ffynnu yn Llantrisant.

The Royal Mint

Q7 Owen John Thomas: When does the First Secretary intend visiting the Royal Mint at Llantrisant? (OAQ77VB)

The First Secretary: As Secretary of State I met representatives of the workforce at the Royal Mint on 2 March 1999. I do not have a specific date for a visit to the Mint but I recall that my predecessor as Member of Parliament for Cardiff South and Penarth was the

Chancellor of the Exchequer when the Mint came to south Wales. I want to see the Mint develop and thrive at Llantrisant.

Mental Health Facilities (Cynon Valley)

Q8 Christine Chapman: What measures does the First Secretary intend to introduce to address the inequalities in the allocation of mental health facilities throughout Wales, with particular reference to the fact that the mental health status of Cynon Valley and Merthyr residents is the lowest in Wales? (OAQ80VB)

The First Secretary: I have set up a multi-disciplinary advisory group to review the existing all-Wales strategy for adult mental health, and a similar body to establish for the first time an all-Wales strategy for child and adolescent mental health services. These new strategies will be the first step in addressing inequality in the provision of services. We are in close touch with the work of establishing a national service framework for mental health services, which will underpin standards and equity of provision.

I am aware of disquiet about mental health services in Cynon Valley and Merthyr Tydfil. My officials have discussed the issues with both Bro Taf Health Authority and North Glamorgan NHS Trust and will continue to monitor the situation.

Cyfleusterau Iechyd Meddwl (Cwm Cynon)

C8 Christine Chapman: Pa fesurau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cyflwyno i ymdrin â'r anghydraddoldeb o ran dyrannu cyfleusterau iechyd meddwl ledled Cymru, gan gyfeirio'n arbennig at y ffaith mai statws iechyd meddwl trigolion Cwm Cynon a Merthyr yw'r isaf yng Nghymru? (OAQ80VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi sefydlu grŵp cynghori amlddisgyblaethol i adolygu'r strategaeth bresennol i Gymru gyfan ym maes iechyd meddwl oedolion, a chorff tebyg i sefydlu strategaeth gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, ar draws Cymru gyfan, am y tro cyntaf.

Yr wyf yn ymwybodol o'r pryder ynglŷn â gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghwm Cynon a Merthyr Tudful. Mae fy swyddogion wedi trafod y materion hyn gydag Awdurdod Iechyd Bro Taf ac Ymddiriedolaeth gwasanaeth iechyd gwladol Gogledd Morgannwg a byddant yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Brynlliw Tip, Swansea

Q9 David Lloyd: While I applaud the decision by Swansea Council to refuse permission for an open cast operation as a means of solving the problems of the Brynlliw tip in Swansea, could the first Secretary make a statement about whether the Assembly, and not Swansea council, will fund the necessary engineering works? (OAQ82JS)

The First Secretary: The specialist consultants appointed to advise on the options for dealing with the burning tip at the former Brynlliw colliery have now submitted their preliminary report. This is currently being considered urgently by the City and County of Swansea, the Welsh Development Agency, the Coal Authority and my Department. As part of this exercise, the partnership is considering the funding options and all partners should be ready to contribute financially to the scheme.

Tomen Brynlliw, Abertawe

C9 David Lloyd: Tra cymeradwyaf benderfyniad cyngor Abertawe i wrthod caniatâd am waith glo brig fel dull o ddatrys problem tomen Brynlliw yn Abertawe, a allai'r Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ynghylch ai'r Cynulliad, yn hytrach na chyngor Abertawe, a fydd yn ariannu'r gwaith peirianyddol angenrheidiol? (OAQ82JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Erbyn hyn mae'r ymgynghorwyr arbenigol a benodwyd i roi cyngor ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer delio â'r domen sy'n llosgi yn hen waith glo Brynlliw wedi cyflwyno eu hadroddiad rhagarweiniol. Mae'n cael ei ystyried fel mater o frys gan Ddinas a Sir Abertawe, Awdurdod Datblygu Cymru, yr Awdurdod Glo a'm Hadran i ar hyn o bryd. Fel rhan o'r ymarferiad, mae'r bartneriaeth yn ystyried yr opsiynau cyllido a dylai pob partner fod yn barod i gyfrannu'n ariannol at y cynllun.

Integrated Transport System

Q10 John Griffiths: Will the First Secretary outline, in general terms, the Assembly's role in developing an integrated transport system in Wales? (OAQ86VB)

The First Secretary: The Assembly will inherit the powers of the Secretary of State for Wales in respect of the trunk road network, the land use planning framework, the general unhypothecated revenue settlement for local authorities and the specific transport grant mechanism used to support local authority capital spending on transport. In addition to these direct levers to promote implementation, the Assembly will need to establish a clear vision of how it wishes to achieve integrated transport in Wales and to seek the commitment and participation of other organisations and players, through partnership, influence and persuasion.

System Drafndiaeth Integredig

C10 John Griffiths: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd amlinellu, o safbwynt cyffredinol a strategol, swyddogaeth y Cynulliad o ran datblygu system drafndiaeth integredig yng Nghymru? (OAQ86VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd y Cynulliad yn etifeddu pwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng nghyswllt y rhwydwaith cefnffyrdd, y fframwaith cynllunio defnydd tir, y setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau lleol a'r mecanwaith grant trafndiaeth penodol a ddefnyddir yn gefn i wariant cyfalaf yr awdurdodau lleol ar drafndiaeth. Yn ogystal â'r dulliau uniongyrchol hyn i hybu gweithredu, bydd gofyn i'r Cynulliad fod â gweledigaeth glir ynglŷn â sut y mae am wireddu trafndiaeth integredig yng Nghymru a cheisio ymrwymiad a chyfranogiad o du sefydliadau a chwaraewyr eraill, trwy bartneriaeth, dylanwad a pherswâd.

Incwm Fferm

C11 Dafydd Wigley: Ar gyfartaledd, beth yw lefel ddiweddaraf incwm fferm net yng Nghymru. Sut mae hyn yn cymharu â'r ffigur ar gyfer y llynedd a'r flwyddyn cynt? (OAQ83VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Rhagwelir y bydd incwm fferm net holl ffermydd llaeth a da byw Cymru ar gyfer 1998-99 tua £6,800, sef gostyngiad o 41 y cant. Ffigurau 1996-97 a 1997-98 oedd £18,500 ac £11,500 yn eu trefn.

Farm Income

Q11 Dafydd Wigley: What is the latest average farm net income in Wales? How does this compare with the figure for last year and the year before? (OAQ83VB)

The First Secretary: Net farm income for all dairy and livestock farms in Wales for 1998-99 is forecast to be around £6,800—down 41 per cent. The figures for 1996-97 and 1997-98 are £18,500 and £11,500 respectively.

LG Semicon Plant (Public Spending)

Q12 Michael German: What is the total level of public spending which has been used to attract the LG Semicon plant to Newport? (OAQ76JS)

The First Secretary: Expenditure to date in relation to the LG Semicon element of the overall LG development at Newport amounts to £43.435 million. This represents the apportioned value of the land acquired for the total development together with the general infrastructure and site development costs attributable to LG Semicon, and the property grant paid by the Welsh Development Agency. Training grants of £634,619 paid by Gwent Training and Enterprise Council are also included in this total.

Ffatri Lled-ddargludyddion LG (Arian Cyhoeddus)

C12 Michael German: Beth yw cyfanswm yr arian cyhoeddus a ddefnyddiwyd i ddenu ffatri Lled-ddargludyddion LG i Gasnewydd? (OAQ76JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r gwariant hyd yma ar elfen Lled-ddargludyddion LG o ddatblygiad cyfan LG yng Nghasnewydd yn £43.435 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli gwerth y tir a brynwyd ar gyfer y datblygiad cyfan, wedi ei rannu, ynghyd â'r seilwaith cyffredinol a chostau datblygu'r safle oedd i'w priodoli i Ffatri Lled-ddargludyddion LG, a'r grant eiddo a dalwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru. Mae grantiau hyfforddi o £634,619 a dalwyd gan Gyngor Hyfforddi a Menter Gwent hefyd wedi eu cynnwys yn y cyfanswm hwn.

Arian Cyfatebol (Cyllideb y Cynulliad)

Q13 Dafydd Wigley: Faint o arian a fydd wedi ei glustnodi o fewn cyllideb y Cynulliad yn y flwyddyn gyfredol fel arian cyfatebol o dan gronfeydd strwythurol Ewrop, gan gynnwys rhai Amcan 1? (OAQ85VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn synnu o weld bod y cwestiwn hwn yn lledaenu camddealltwriaeth ynglŷn â'r broses. Wrth gymeradwyo rhaglenni cronfeydd strwythurol mae'r aelod wladwriaeth yn ymrwmo i sicrhau bod yr holl gyllid cyfatebol angenrheidiol ar gael. Byddwn yn sicrhau ein bod yn anrhydeddu'r ymrwymiad hwn.

Match Funding (Assembly Budget)

Q13 Dafydd Wigley: How much money will be earmarked within the Assembly budget in the current year as match funding for schemes under the European structural funds, including Objective 1? (OAQ85VB)

The First Secretary: I am surprised to see that this question propagates a misapprehension about the process. By approving structural fund programmes, the member state commits itself to ensuring that all necessary match funding is made available. We will ensure that this commitment is honoured.

Gofal yn y Gymuned a Gofal Seibiant (Rhydaman)

C14 Rhodri Glyn Thomas: Pa astudiaethau a wnaed gan y Prif Ysgrifennydd i ddarpariaeth gofal yn y gymuned a gofal seibiant yn ardal Rhydaman? (OAQ84VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yn 1997 cyllidwyd prosiect ymchwil gan y Swyddfa Gymreig a oedd yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol pobl 70 oed a throsodd yng Nghwm Aman Uchaf. Mae ein hymagwedd tuag at broblemau gofal yn y gymuned a gofal seibiant yn gyffredinol wedi bod ar sail Cymru-gyfan, gyda phwyslais penodol ar anghenion pobl hŷn. Yr ydym yn ategu darganfyddiadau manwl astudiaeth y Comisiwn Archwilio i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn, 'The Coming of Age', ac yr ydym wedi gweithio gydag awdurdodau iechyd a'u partneriaid yn y gwasanaethau cymdeithasol i weithredu'r argymhellion. Mae ei thema ganolog o gydweithio da rhwng asiantaethau yn hanfodol i sicrhau cyflwyno'r gwasanaethau gorau i bob grŵp cleient.

Community and Respite Care (Ammanford)

Q14 Rhodri Glyn Thomas: What studies has the First Secretary undertaken of community care and respite care in the Ammanford area? (OAQ84VB)

The First Secretary: In 1997 the Welsh Office funded a research project which looked at the health and social care of people aged 70 and over in the Upper Amman Valley. Our approach to the problems of community care and respite care has generally been on an all-Wales basis, with particular emphasis on the needs of older people. We endorse the detailed findings of the Audit Commission study into services for older people, 'The Coming of Age', and we have worked with health authorities and their social services partners to take forward its recommendations. Its central theme of good joint working between agencies is essential to ensure the best delivery of services for all client groups.

New Planning Appeals Process

Q15 Jonathan Morgan: Will the First Secretary outline proposals for a new planning appeals process after the powers of the Welsh Office are transferred in July? (OAQ67JS)

The First Secretary: After 1 July, planning inspectors will continue to decide the majority of planning appeal cases but major appeals will be decided by the Assembly under criteria to be established following a review of the current arrangements.

Proses Apeliadau Cynllunio Newydd

C15 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd amlinellu cynigion ar gyfer proses apeliadau cynllunio newydd ar ôl i bwerau'r Swyddfa Gymreig gael eu trosglwyddo ym mis Gorffennaf? (OAQ67JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Ar ôl 1 Gorffennaf, arolygwyr cynllunio fydd yn parhau i benderfynu'r rhan fwyaf o apeliadau cynllunio ond penderfynir ar apeliadau mawr gan y Cynulliad dan feini prawf sydd i'w sefydlu ar ôl i'r trefniadau cyfredol gael eu hadolygu.

Staff Prifysgolion (Cyflogau ac Amodau Gwaith)

C16 Elin Jones: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd, yn sgîl cyfres o streiciau gan y Gymdeithas Athrawon Prifysgol dros yr haf, i sicrhau bod cyflogau ac amodau gwaith staff ein prifysgolion yn caniatáu datblygiad proffesiynol teilwng? (OAQ90JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mater i'r cyflogwyr yn unig yw penderfynu ar gyflogau ac amodau gwasanaeth staff prifysgol. Fodd bynnag, mae'r llythyr sy'n rhoi arweiniad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn dilyn setliad gwariant cyhoeddus 1999-00, yn nodi bod disgwyl i'r sector ddilyn polisi cyflogau y sector cyhoeddus gan ystyried tegwch a'r angen i recriwtio, ysgogi a chadw staff o fewn terfynau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Ymchwilio Cenedlaethol ar Addysg Uwch, sefydlwyd pwyllgor adolygu annibynnol ym mis Chwefror 1998 er mwyn cyflwyno adroddiad ar gyflogau ac amodau gwasanaeth staff academiaidd a staff eraill yn y sector addysg uwch. Bydd Pwyllgor Bett yn cyflwyno adroddiad i'r cyflogwyr yn fuan.

University Staff (Salaries and Working Conditions)

Q16 Elin Jones: What plans has the First Secretary, following the series of strikes by the Association of University Teachers during the summer, to ensure that the salaries and working conditions of our university staff permit appropriate professional development? (OAQ90JS)

The First Secretary: Pay and conditions of service of university staff are solely matters for the determination of the employers. The letter of guidance to the Higher Education Funding Council for Wales, following the 1999-2000 public expenditure settlement, states that the sector is expected to follow public sector pay policy by taking account of fairness and the need to recruit, motivate and retain staff, within the limits of the comprehensive spending review.

Following the report of the National Committee of Inquiry into Higher Education, an independent review committee to report on the pay and conditions of service for both academic and non-academic staff in the higher education sector was set up in February 1998. The Bett Committee will report shortly to the employers.

Meat Processing Plants

Q17 Nick Bourne: What action is to be taken to protect small meat processing plants? (OAQ66JS)

The First Secretary: Following representations from the industry and interested bodies, we announced on 21 April that the introduction of charging for specified risk material enforcement controls would be deferred for a further year. It was recognised that there were deep concerns that increases in costs of the scale proposed would cause severe difficulties for many abattoirs, particularly the smaller ones.

For this financial year, the burden of these changes, which amount to around £2.5 million in Wales, will be borne by the Government instead of being passed to the industry. In addition, the Government is undertaking a further examination of the impact of all proposed charging on the slaughtering sector and on producers, and is taking into account in this the impact that charges would have on small meat processing plants.

Ffatrioedd Prosesu Cig

C17 Nick Bourne: Beth fydd yn cael ei wneud i ddiogelu ffatrioedd bychain sy'n prosesu cig? (OAQ66JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yn dilyn sylwadau gan y diwydiant a chyrrff â diddordeb, cyhoeddusom ar 21 Ebrill y byddid yn gohirio'r tâl am fesurau i orfodi rheolaeth dros

ddeunydd risg penodol am flwyddyn arall. Cydnabuwyd y pryder mawr y byddai costau uwch ar y raddfa arfaethedig yn peri anawsterau difrifol i lawer o ladd-dai, yn enwedig y rhai llai.

Yn y flwyddyn ariannol hon, bydd baich y newidiadau hyn, sy'n costio tua £2.5 miliwn yng Nghymru, yn cael ei ysgwyddo gan y Llywodraeth yn hytrach na chael ei basio i'r diwydiant. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn ymchwilio ymhellach i effaith y taliadau arfaethedig ar y sector lladd-dai ac ar gynhyrchwyr, ac yn rhan o hyn mae'n rhoi sylw i'r effaith a gâi taliadau ar ffatrioedd bach sy'n prosesu cig.

Bro Taf Health Authority

Q18 Jenny Randerson: Will the First Secretary make a statement regarding recent national health service waiting list figures, which reveal that the number of people waiting over six months for treatment in the Bro Taf Health Authority has continued to rise? (OAQ79VB)

The First Secretary: I am concerned about the recent increases, although it must be remembered that 86 per cent of patients in Bro Taf are seen within six months. Officials are in discussion with the health authority about the scope for reducing waiting lists and times in 1999-2000. The Welsh Office is also funding a pilot project at University of Wales to identify means by which the management of outpatient appointments can be improved to reduce outpatient waiting lists and long waiting times.

Awdurdod Iechyd Bro Taf

C18 Jenny Randerson: A allai'r Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ynghylch rhestrau aros diweddar yr awdurdod iechyd gwladol sy'n datgelu bod y nifer sydd wedi aros dros chwe mis am driniaeth yn Awdurdod Iechyd Bro Taf wedi parhau i godi? (OAQ79VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn bryderus ynglŷn â'r cynnydd diweddar, er bod yn rhaid cofio bod 86 y cant o gleifion ym Mro Taf yn cael eu gweld o fewn chwe mis. Mae'r swyddogion yn trafod gyda'r awdurdod iechyd y posibilrwydd o leihau'r rhestrau a'r cyfnodau aros yn 1999-2000. Mae'r Swyddfa Gymreig hefyd yn cyllido prosiect peilot ym Mhrifysgol Cymru i ganfod ffyrdd o wella'r rheolaeth dros apwyntiadau cleifion allanol er mwyn lleihau'r rhestrau aros hir i gleifion allanol a chwtogi'r cyfnodau aros hir.

Cardiff Railway Co. Ltd.

Q19 Jenny Randerson: Will the First Secretary inform the Assembly what powers of influence it has to ensure that Cardiff Railway Co. Ltd., which has recently been placed in the lowest category for punctuality and reliability, improves its reliability? (OAQ81JS)

The First Secretary: I share Members' concern that the train operating companies in Wales are still far below the level of performance that passengers and taxpayers deserve and expect. Although the Assembly will not have the responsibility for the regulation of the railways in Wales, it will be able to make its views known to the train operators, Railtrack and the various regulatory bodies. As one who has found it immensely frustrating that nobody has seemed ready to take responsibility for problems and delays I welcome the interest of the Deputy Prime Minister in these issues and the impact of the 'rail summit', which concentrated minds on the need to improve services.

In addition, the planned strategic rail authority will include representation from Wales, and will consult the National Assembly about the exercise of its functions as they relate to the Assembly's interests.

Cardiff Railway Co. Ltd.

C19 Jenny Randerson: A fydd y Prif Ysgrifennydd yn hysbysu'r Cynulliad o'r pwerau sydd ganddo i ddylanwadu ar Cardiff Railway Co. Ltd., a osodwyd yn ddiweddar yn y categori isaf o ran prydlondeb a dibynadwyedd, i wella ei ddibynadwyedd? (OAQ81JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn rhannu pryder yr Aelodau bod y cwmnïau sy'n cynnal y gwasanaethau trên yng Nghymru yn dal i ddisgyn lawer yn is na'r lefel perfformiad y mae teithwyr a threthdalwyr yn ei haeddu a'i disgwyl. Er na fydd y Cynulliad yn gyfrifol am reoleiddio'r rheilffyrdd yng Nghymru, gall gyfleu ei farn i'r cwmnïau trenau, Railtrack a'r gwahanol gyrff rheoleiddio. Fel rhywun sydd wedi teimlo rhwystredigaeth enfawr nad oedd neb yn ôl pob tebyg yn barod i ysgwyddo cyfrifoldeb am broblemau ac oedi, yr wyf yn croesawu diddordeb y Dirprwy Brif Weinidog yn y materion hyn ac effaith yr 'uwchgynhadledd rheilffyrdd', a hoeliodd y sylw ar yr angen i wella gwasanaethau.

Yn ogystal, bydd yr awdurdod rheilffyrdd strategol sydd yn yr arfaeth yn cynnwys cynrychioliadau o Gymru, a bydd yn ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r modd y mae'n rhoi ei swyddogaethau ar waith fel y maent yn berthnasol i'r Cynulliad.

Royal Glamorgan Hospital

Q20 Geraint Davies: What are the present estimated costs for the Royal Glamorgan Hospital, which I understand is to be completed later this year, and what will be the estimated cost of replacing the defective roof tiling, together with the estimated costs for making good other defects within the hospital? (OAQ88JS)

The First Secretary: The current approved sum for the Royal Glamorgan Hospital is £97.863 million. The total cost of renewing the roof to a higher standard than originally specified is estimated at £770,000. The cost to the trust is approximately £250,000 which is included in the approved sum. The contractors will fund the remainder of the £770,000. The nature and extent of other defects is currently being investigated by officials.

Ysbyty Brenhinol Morgannwg

C20 Geraint Davies: Beth yw'r gost dybiedig ar hyn o bryd ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg a fydd yn ôl a ddeallaf yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni, a faint fydd cost dybiedig ailosod y teils to diffygiol, ynghyd â chost dybiedig atgyweirio diffygion eraill o fewn yr ysbyty? (OAQ88JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Y swm sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg yw £97.863 miliwn. Amcangyfrifir y bydd y gost lawn o adnewyddu'r to hyd at safon uwch na'r safon yn y fanyleb wreiddiol yn £770,000. Mae'r gost i'r ymddiriedolaeth oddeutu £250,000 sydd wedi ei gynnwys yn y swm a gymeradwywyd. Bydd y contractwyr yn cyllido'r gweddill, sef £770,000. Mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i natur a maint y diffygion eraill.

LG Semicon Plant

Q21 Phil Williams: What steps has the First Secretary taken over the past year to persuade LG and Hyundai to proceed with the proposed microchip factory in Newport? (OAQ87JS)

The First Secretary: The merger negotiations between Hyundai and LG were concluded only very recently. It is still not clear what the plans are for the LG Semicon facility at Newport. Since these negotiations began I and my predecessor as Secretary of State have followed events very closely. I have taken every opportunity to reinforce the advantages of

bringing the Newport plant into production. The Welsh Development Agency is in constant touch with appropriate representatives in Seoul.

Ffatri Lled-ddargludyddion LG

C21 Phil Williams: Beth y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i berswadio LG a Hyundai i fynd ymlaen â'r ffatri microsglodion yng Nghasnewydd? (OAQ87JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Dim ond yn ddiweddar iawn y cwblhawyd y trafodaethau uno rhwng Hyundai ac LG. Nid yw'n glir o hyd beth yw'r cynlluniau ar gyfer ffatri Lled-ddargludyddion LG yng Nghasnewydd. Ers i'r trafodaethau ddechrau yr wyf i a'm rhagflaenydd fel Ysgrifennydd Gwladol wedi dilyn hynt y digwyddiadau'n fanwl iawn. Achubais ar bob cyfle i atgyfnerthu manteision sefydlu'r gwaith cynhyrchu yn ffatri Casnewydd. Mae Awdurdod Datblygu Cymru mewn cysylltiad cyson â chynrychiolwyr priodol yn Seoul.

Clothing Manufacturing

Q22 Peter Black: In light of the recent closure of Fii Footwear in Bridgend, and the loss of over 1,100 jobs in clothing manufacturing in Wales since September 1998, will the First Secretary state what steps he is taking to support clothing manufacturing in Wales to prevent further job losses and will he make a statement? (OAQ70JS)

The First Secretary: Job losses as well as job gains are an inevitable part of the environment in a dynamic economy, but it is important that we do our very best to help the people who are affected by the changing economic environment to adjust to the new circumstances, and a number of measures are in place. It is also important that jobs that are lost are replaced by new ones. The latest figures show that the total number of employee jobs in Wales rose by 11,100 during 1998.

In the footwear and clothing industry over the past five years, regional selective industry grants totalling £750,000 have been accepted by firms expecting to create 398 new jobs and safeguard 114 jobs. This includes 154 new jobs at Leaveland Shoe Co. Ltd. in Pembroke Dock in January 1999.

Gweithgynhyrchu Dillad

C22 Peter Black: Yn wyneb cau ffatri Fii Footwear ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar a cholli dros 1,100 o swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu dillad yng Nghymru ers mis Medi 1998, a wna'r Prif Ysgrifennydd ddatgan yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gefnogi gweithgynhyrchu dillad yng Nghymru er mwyn sicrhau na fydd rhagor o swyddi yn cael eu colli ac a fydd yn gwneud datganiad? (OAQ70JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae colli swyddi yn ogystal ag ennill swyddi yn rhan anochel o'r amgylchedd mewn economi deinamig, ond mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein gorau glas i helpu'r bobl yr effeithir arnynt gan newidiadau yn yr amgylchedd economaidd i ymaddasu i'r amgylchiadau newydd, ac mae nifer o fesurau wedi eu sefydlu. Mae'n bwysig hefyd fod swyddi newydd yn dod yn lle'r rhai a gollir. Dengys y ffigurau diweddaraf bod cyfanswm y swyddi cyflog yng Nghymru wedi codi 11,100 yn ystod 1998.

Yn y diwydiant esgidiau a dillad dros y pum mlynedd diwethaf, mae grantiau rhanbarthol dethol i ddiwydiant gwerth £750,000 wedi eu derbyn gan gwmnïau a ddisgwyliai greu 398 o swyddi newydd a diogelu 114 o swyddi. Mae hyn yn cynnwys 154 o swyddi newydd yn Leaveland Shoe Co. Ltd. yn Noc Penfro ym mis Ionawr 1999.

Recycling Household Waste

Q23 Peter Black: What steps are being taken to meet the Government's targets of recycling 25 per cent of household waste in Wales by the year 2000? [R] (OAQ71VB)

The First Secretary: Achieving increased rates of recycling will be an important priority for the Assembly. We will be giving early consideration to this as part of the development of our waste strategy. The Welsh Office has supported a research project by the Institute of Welsh Affairs aimed at increasing re-use and recycling, and developing new outlets and markets for secondary materials.

Ailgylchu Gwastraff Cartrefi

C23 Peter Black: Beth sy'n cael ei wneud i gyflawni targedau'r Llywodraeth i ailgylchu 25 y cant o wastraff cartrefi yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2000? [R] (OAQ71VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd sicrhau cyfraddau ailgylchu uwch yn flaenoriaeth bwysig i'r Cynulliad. Byddwn yn rhoi ystyriaeth fuan i hyn fel rhan o ddatblygu ein strategaeth gwastraff. Mae'r Swyddfa Gymreig wedi cefnogi prosiect ymchwil gan y Sefydliad Materion Cymreig sy'n anelu at annog mwy o ailddefnyddio ac ailgylchu, a datblygu marchnadoedd newydd i ddeunyddiau eilaidd.

Home-School Agreements

Q24 Jonathan Morgan: Will the First Secretary report on the progress of implementing the home-school agreements? (OAQ68JS)

The First Secretary: Further to the Secretary for Pre-16 Education's reply of 26 May, guidance on home-school agreements was sent to schools and local authorities on 28 May.

Cytundebau Cartref-Ysgol

C24 Jonathan Morgan: A allai'r Prif Ysgrifennydd roi adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu cytundebau cartref-ysgol? (OAQ68JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yn ategol i ateb yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 ar 26 Mai, anfonwyd canllawiau ar drefniadau cartref-ysgol i ysgolion ac awdurdodau lleol ar 28 Mai.

Welsh Forest Strategy Group

Q25 Mick Bates: What plans are being prepared to establish a Welsh forest strategy group to provide direction and development to one of our most precious resources? [R] (OAQ72VB)

The First Secretary: In February 1999, we agreed to set up an inter-departmental working group to develop a Wales Woodland Strategy with the following terms of reference:

'To prepare a Wales Woodland Strategy, identifying ways in which forestry can best contribute to economic and social development in Wales and to the natural heritage.'

The group is made up of officials from the Forestry Commission, the Welsh Office and representatives from Government agencies in Wales, unitary authorities and National Parks. The aim is to prepare an issues paper for the Assembly Secretary. This will set out the framework within which the Strategy will be developed and detail the management of the process, including public consultation arrangements. This will then afford the Assembly an

opportunity for direction and involvement in the development of the Strategy itself. The group has held its first meeting and will be engaging key stake holders in advance of preparing an issues paper.

Grŵp Strategaeth Fforestydd Cymru

C25 Mick Bates: Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sefydlu grŵp strategaeth fforestydd Cymru er mwyn arwain a datblygu un o'n hadnoddau mwyaf gwerthfawr? [R] (OAQ72VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Ym mis Chwefror 1999, cytunasom i sefydlu gweithgor rhyngadrannol i ddatblygu Strategaeth Coedlannau i Gymru gyda'r cylch gorchwyl isod:

'Paratoi Strategaeth Coedlannau i Gymru, yn nodi ym mha ffyrdd y gall coedwigaeth gyfrannu orau at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru ac at yr etifeddiaeth naturiol.'

Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion o'r Comisiwn Coedwigaeth, y Swyddfa Gymreig a chynrychiolwyr o asiantaethau'r Llywodraeth yng Nghymru, awdurdodau unedol a Pharciau Cenedlaethol. Y nod yw paratoi papur materion ar gyfer Ysgrifennydd y Cynulliad. Bydd yn nodi'r fframwaith y datblygir y Strategaeth oddi mewn iddo ac yn manylu ar sut y rheolir y broses, gan gynnwys y trefniadau i ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd hyn wedyn yn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad i gyfarwyddo a bod â rhan yn natblygiad y Strategaeth ei hun. Mae'r grŵp wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf a bydd yn cysylltu â buddianwyr allweddol cyn paratoi papur materion.

Cardiff City Hall

Q26 Rod Richards: Could Cardiff City Hall remain an option for the National Assembly for Wales and will the First Secretary make a statement? (OAQ92AG)

The First Secretary: I do not consider that Cardiff City Hall is a viable option. It would be expensive to refurbish, and I doubt that it could provide as much space as the Assembly requires. It has been reoccupied by Cardiff County Council following the European Summit, and the Assembly would probably have to pay to rehouse these staff in alternative accommodation. The costs of fitting out the office accommodation at Crickhowell House and Pierhead Building would become nugatory expenditure. In addition, long-term sub leases have been agreed with media companies who wished to be co-located with the Assembly and who would seek to recover their abortive expenditure from the Assembly.

Neuadd y Ddinas, Caerdydd

C26 Rod Richards: A fyddai modd i Neuadd y Ddinas, Caerdydd, aros yn ddewis posibl ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad? (OAQ92AG)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf o'r farn bod Neuadd y Ddinas, Caerdydd, yn ddewis posibl. Byddai'n gostus i'w hadnewyddu, ac yr wyf yn amau a allai gynnig cymaint o le ag sydd ei angen ar y Cynulliad. Mae Cyngor Sir Caerdydd wedi ailddechrau ei defnyddio ers yr Uwch-gynhadledd Ewropeaidd, ac mae'n bur debyg y byddai'n rhaid i'r Cynulliad dalu i symud yr aelodau staff hynny i adeilad arall. Byddai'r costau o baratoi swyddfydd yn Nhŷ Crucywel ac Adeilad Pen y Pier wedyn yn wariant diwerth. Yn ogystal, cytunwyd ar isbrydlesi hirdymor gyda chwmnïau cyfryngol a oedd am gael eu lleoli gyda'r Cynulliad a byddent yn disgwyl i'r Cynulliad ad-dalu iddynt eu gwariant ofer.

Cardiff City Hall (Refurbishment Cost)

Q27 Rod Richards: What is the First Secretary's estimate of the cost of refurbishing the Council Chamber of Cardiff City Hall to make it suitable as an Assembly Chamber? (OAQ93VB)

The First Secretary: When the original option appraisal was carried out in 1997, the estimated capital cost of refurbishment, which excludes the purchase costs, was £28 million.

Neuadd y Ddinas, Caerdydd (Cost Adnewyddu)

C27 Rod Richards: Beth yw amcangyfrif y Prif Ysgrifennydd o gost adnewyddu Neuadd y Ddinas, Caerdydd, i'w gwneud yn addas fel Siambr i'r Cynulliad? (OAQ3VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Pan gynhaliwyd y gwerthusiad opsiwn gwreiddiol ym 1997, amcangyfrifwyd y byddai cost gyfalaf y gwaith adnewyddu, nad yw'n cynnwys cost y pryniant, yn £28 miliwn.

Childcare (Assembly)

Q28 Jane Davidson: What means are currently being taken to ensure that the childcare needs of Assembly Members, staff and visitors are being considered? (OAQ94VB)

The First Secretary: All Assembly candidates were sent questionnaires prior to the elections to the Assembly asking what their childcare needs would be. Only one expressed a need for such care.

In addition, Members received details in their information packs of three possible nurseries in the vicinity of the Assembly building. The Members' helpdesk holds more detailed information about the nurseries. In addition, the Chwarae Teg database on childcare providers has been installed on a computer in the Members' Library. We have, of course, tried to make the Assembly working hours and sitting periods compatible with the needs of Members who may have families and children.

Gofal Plant (Y Cynulliad)

C28 Jane Davidson: Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud ar hyn o bryd i sicrhau y rhoddir ystyriaeth weithredol i anghenion gofal plant Aelodau'r Cynulliad, staff ac ymwelwyr? (OAQ94VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Anfonwyd holiaduron at holl ymgeiswyr y Cynulliad cyn etholiadau'r Cynulliad yn gofyn beth fyddai eu hanghenion o ran gofal plant. Dim ond un a fynegodd angen am ofal o'r fath.

Yn ogystal, yn eu pecynnau gwybodaeth cafodd yr Aelodau fanylion tair meithrinfa bosibl yng nghyffiniau adeilad y Cynulliad. Ceir mwy gwybodaeth fanylach am feithrinfeydd ar ddesg gymorth yr Aelodau. Yn ogystal, mae cronfa ddata Chwarae Teg ar ddarparwyr gofal plant wedi ei gosod ar gyfrifiadur yn Llyfrgell yr Aelodau. Yr ydym, wrth gwrs, wedi ceisio sicrhau bod oriau gwaith y Cynulliad a'r cyfnodau eistedd yn gweddu i anghenion Aelodau y mae ganddynt deuluoedd a phlant.